**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod arbennig hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022 am 5.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd R Davis |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd S Emanuel | Y Cynghorydd B Harris |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd N H Morgan |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd L Addiscott |
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd S J Davies | Y Cynghorydd A Dennis |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd D Evans |
| Y Cynghorydd P Evans | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd H Gronow | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd C Lisles | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd C Preedy |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd K Webb |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd T Williams |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr J Whitehurst, Swyddog Graddedig
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd P Binning | Y Cynghorydd J Cook |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd R Evans |
| Y Cynghorydd S.Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd M Maohoub |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd J Turner |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd G E Williams |
| Y Cynghorydd D Wood | |

**60 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod arbennig y Cyngor a chafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Cook, J Elliott, R Evans, A S Fox, S Hickman, G Hopkins, G O Jones, M Maohoub, S Powderhill, A Roberts, L Tomkinson, J Turner, M Webber, G Williams, Sera Evans, D Wood, M Powell, W Owen a P Binning.

**61 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**62 SETLIAD LLYWODRAETH LEOL DROS DRO 2023/24**

Derbyn diweddariad llafar gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol mewn perthynas â Setliad Llywodraeth Leol dros dro 2023/24 (ar ôl iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 14 Rhagfyr 2022), gan ddefnyddio cyflwyniad Powerpoint sy'n cynnwys y penawdau canlynol:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac Adolygiad o'r Gofynion Cyllidebol
- Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2023/24
- Adnoddau sydd ar gael yn y Setliad Dros Dro
- Bwlch yn y Gyllideb yn y Setliad Dros Dro
- Ystyriaethau/ Strategaeth y Gyllideb
- Amserlen Amlinellol (Drafft)
- Casgliad

Roedd y Cyfarwyddwr wedi atgoffa Aelodau bod y bwlch yn y gyllideb wedi'i gadarnhau fel £36.475miliwn yn rhan o gyflwyniad am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn a gafodd ei gynnal ar 28 Medi 2022. Ar y pryd, nododd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn rhagdybio setliad o 3.5% gan Lywodraeth Cymru, roedd hyn yn cyd-fynd â'r gyllideb ddangosol a ddarparodd Llywodraeth Cymru i'r Cyngor ochr yn ochr â'r setliad ar gyfer y gyllideb eleni.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod gofynion y gyllideb wedi cael eu hadolygu'n barhaus ond roedd nifer o ddiweddariadau pellach wedi arwain at gynnydd net o ran goblygiadau'r Cyngor o ran y gyllideb. Mae'r diweddariad yn cynnwys hysbysiad dros dro y bydd ardoll Gwasanaeth Tân De Cymru yn

cynyddu gan 8.07% ar gyfer RhCT (gofyniad cyllidebol ychwanegol gwerth £530,000), ailasesiad o'r gofynion cyllideb sylfaenol ar gyfer niferoedd ysgolion arbennig, costau cyfalaf a chyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gofal cymdeithasol yn seiliedig ar alw a gofynion yswiriant amcangyfrifedig diwygiedig a gofynion cyllidebol ychwanegol gwerth £1.454miliwn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod y Cyngor hefyd wedi cynnwys y cynnydd o ran cost y cyflog byw gwirioneddol (£10.90), yn dilyn cyhoeddiad Real Living Wage Foundation, gan ymrwymo i ddarparu'r cyflog byw gwirioneddol i'r sector gofal, gyda chost o £3.6miliwn i'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi adlewyrchu ar ei ragdybiaethau o ran y dyfarniad cyflog ac wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r ailbrisiad o bensiynau (cynnydd net o £6.76miliwn). Bydd costau ynni'r Cyngor yn cynyddu'n sylweddol hefyd, o £6miliwn i oddeutu £20miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (sef gofyniad cyllidebol ychwanegol gwerth £7miliwn). Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y bydd effaith net y newidiadau yma i'w ofynion cyllidebol yn cynyddu'r bwlch yn y gyllideb o £36miliwn i £52miliwn.

Rhannodd y Cyfarwyddwr y penawdau o'r Setliad Llywodraeth Leol dros dro, sef -

- Cynnydd cyfartalog gwerth 7.9% ledled Cymru
- Cynnydd gwerth 6.6% ar gyfer RhCT (o'i gymharu â'r cynnydd dangosol gwerth 3.5% a ddarparwyd yn y setliad ar gyfer y flwyddyn gyfredol)
- Lefelau setliad yn amrywio o 6.5% i 9.3%
- Cynnydd dangosol gwerth 3.1% ar gyfer 2024/25 (Cymru gyfan)
- Cyllid Cyfalaf – Cynnydd gwerth £30miliwn ar gyfer Cymru, yn unol â'r hyn a gafodd ei gyhoeddi y flwyddyn ddiwethaf (+£2.287miliwn ar gyfer RhCT yn dilyn gostyngiad o £2.165miliwn y flwyddyn yma)
- Grantiau penodol gwerth £1.3biliwn ar gyfer cyllid refeniw a chyllid cyfalaf gwerth £925miliwn (ar lefel Cymru gyfan yn unig)
- Mae cyllid ychwanegol gwerth £13.89miliwn bellach ar gael i'r Cyngor.
- Mae disgwyl i'r setliad terfynol gael ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Mawrth 2023.

- Mae effaith y setliad dros dro yn ogystal â'r newidiadau i ofynion cyllideb sylfaenol y Cyngor yn golygu bwlch yn y gyllideb ddiwygiedig gwerth £38.3miliwn.

Er mwyn rhoi rhyw fath o gyd-destun, cymharodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol y ffigurau yma â ffigurau o flwyddyn yn ystod cynni pan dderbyniodd y Cyngor doriad o 3.7% mewn cyllid, gan wynebu bwlch yn y gyllideb gwerth £21.8miliwn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod angen i'r Cabinet fynd ati i bennu'r strategaeth ar gyfer cyllideb y Cyngor gan ystyried y sefyllfa bresennol. Ychwanegodd y bydd cam un o'r broses ymgynghori ar y gyllideb yn dod i ben ar 21 Rhagfyr a bydd y Cabinet yn ystyried yr adborth yn rhan o'i drafodaethau. O ran Treth y Cyngor, mae cynnydd o 2% wedi'i gynnwys yn y bwlch yn y gyllideb a bydd pob cynnydd neu ostyngiad o 1% yn cyfateb i gynnydd/ostyngiad gwerth £955,000 mewn incwm.

Siaradodd y Cyfarwyddwr am sawl ystyriaeth allweddol ar gyfer y gyllideb, megis ysgolion, sydd wedi cael gwybod bod angen cynllunio ar gyfer cyfnod heriol, a hynny at ddibenion modelu. Ychwanegodd y bydd gostyngiad o 2.75% o ran adnoddau (a hynny ar ôl cael eu cyllido ar gyfer holl ofynion y gyllideb yn flaenorol). Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr ei bod hi'n gyfrifoldeb ar y Cabinet i

bennu'r dull arfaethedig ar gyfer cyllido ysgolion a hynny'n rhan o'r strategaeth ar gyfer y gyllideb.

O ran opsiynau ar gyfer aildrefnu gwasanaethau, mae'r Cyngor eisoes yn ystyried ymgynghori ar y Gwasanaeth Prydau yn y Gymuned, trefniadau casglu gwastraff/gwastraff gweddilliol ac mae'r Cabinet wedi penderfynu argymell bod y Cyngor yn cyflwyno premiwm treth y Cyngor ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi.

Mae rheolwyr gwasanaethau wedi cael eu herio i nodi cyfleoedd i leihau'u cyllidebau drwy fesurau effeithlonrwydd a newidiadau gweithredol a fydd yn cael effaith sylweddol ar sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Siaradodd y Cyfarwyddwr am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ac yn benodol y gronfa bontio wrth gefn, sydd eisoes wedi'u cynyddu i dros £6miliwn eleni o ganlyniad i gyflawni effeithlonrwyddau ac arbedion yn gynnar yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd ar gael a hynny yng nghyd-destun y pwysau a ragwelir eleni (£21miliwn). Bydd angen mantoli'r gyllideb yma trwy dynnu cronfeydd wrth gefn i lawr.

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr amlinelliad o'r amserlen ar gyfer pennu cyllideb y Cyngor, gan roi gwybod y bydd y strategaeth derfynol ar gyfer y gyllideb refeniw yn cael ei thrafod gan y Cabinet ar 27 Chwefror ac yna'i hargymell i'r Cyngor Llawn ar 8 Mawrth 2023. Bydd y Rhaglen Gyfalaf a'r Penderfyniad ynghylch Treth y Cyngor hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn y cyfarfod yma.

Croesawodd yr Arweinydd y cyllid ychwanegol gwerth 7.9% gan y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2023/24 (Cymru gyfan). Cyfeiriodd at y fformiwla ariannu, gan nodi mai Cyngor RhCT yw'r 21ain Cyngor ar y rhestr ond dywedodd fod hyn o ganlyniad i sawl peth, gan gynnwys ffigurau mewn perthynas â'r boblogaeth.

Dywedodd yr Arweinydd y bydd y Cyngor yn ystyried ym mha feysydd gwasanaeth y mae angen gwneud arbedion effeithlonrwydd pellach. Ychwanegodd fod y Cyngor yn ymgynghori ar lefel Treth y Cyngor yn rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb. Nododd y bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i ddiogelu ysgolion a phwysleisiodd y bydd deialog agored yn cael ei chynnal gyda nhw yn y misoedd nesaf. Ychwanegodd fod y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor, gan adeiladu ar ei lwyddiant o gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Er bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i bennu cyllideb gytbwys, nododd yr Arweinydd y bydd gwneud toriadau i unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor yn benderfyniad anodd, gan fod pob un o'r gwasanaethau yma'n bwysig ac maen nhw'n wasanaethau sydd eu hangen ar gymunedau RhCT.

Dymunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Newid yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol am ddarparu diweddariad amserol i'r holl Aelodau a dymunodd ddiolch i'r Arweinydd am ei ymrwymiad a'i holl waith caled yn ystod cyfnod heriol.

Yn dilyn trafodaeth bellach, cododd sawl Aelod ymholiadau, fel a ganlyn:

Gofynnodd Arweinydd yr Wrthblaid am eglurhad mewn perthynas â'r cynnydd o 6.6% sy'n golygu mai RhCT yw'r Cyngor gyda'r ail swm uchaf o gyllid yng Nghymru (er ei fod e yn safle 21 ar y rhestr). Gofynnodd y Cynghorydd a yw'r ffordd y mae'r cyllid yn cael ei ddosbarthu yn dilyn fformiwla y mae Llywodraeth

Cymru a'r Cynghorau wedi'u cymeradwyo.

Holodd Arweinydd yr Wrthblaid a fydd gofyn i ysgolion dalu am 50% o'r dyfarniad cyflog a ph'un a fydd modd i'r Grŵp Llafur gyflawni'r addewid a gafodd ei nodi yn ei faniffesto, sef cyllido holl gostau ysgolion a sicrhau bod pob disgybl yn dal i fyny yn dilyn y pandemig a hynny gan ystyried bod ysgolion yn wynebu arbedion effeithlonrwydd gwerth 2.75%. Gan ystyried hyn, gofynnodd y Cynghorydd K Morgan a oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i gynnig cyfleoedd ymddeol yn gynnar mewn ysgolion, fel sydd wedi'i wneud yn y gorffennol.

Cynigodd Arweinydd yr Wrthblaid y dylai cynllun gweithredu costau byw gael ei gyhoeddi er mwyn osgoi amddifadedd yng nghyd-destun y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanyn nhw, a hefyd dwyn y ddwy Lywodraeth Genedlaethol i gyfrif.

Wrth ymateb i'r ymholiadau a godwyd, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol mai Cyngor RhCT yw'r ail Gyngor fwyaf yng Nghymru ac mae cyllid Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu hyn. Mae'r setliad Llywodraeth Cymru yn defnyddio fformiwla gytûn Llywodraeth Cymru. O ran ysgolion yn cyllido 50% o'r dyfarniad cyflog yn y flwyddyn ariannol gyfredol, hynny yw tu hwnt i'r lefelau sydd wedi'u rhagweld, nododd fod hyn oherwydd y bydd y Cyngor yn ariannu'r dyfarniad cyflog yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer pob ysgol.

Nododd y Cyfarwyddwr mai penderfyniad ar gyfer yr ysgolion yw hi i gynnig cyfleoedd ymddeol yn gynnar, a hynny ar y cyd â'u Cyrff Llywodraethu.

Nododd Arweinydd y Grŵp Ceidwadol fod y setliad arfaethedig yn siomedig yn ei farn ef. Nododd hefyd, o gymharu RhCT ag Awdurdodau Lleol eraill a gan ystyried bod RhCT yn 5ed ar y rhestr o ran gofynion gwariant fesul person, a hynny i ddarparu'r gwasanaethau hynny y mae trigolion yn dibynnu arnyn nhw, y cynnig yw y bydd y Cyngor yn derbyn cynnydd sy'n llai na 7%. Dywedodd y Cynghorydd fod disgwyl i Gyngor Dinas Caerdydd dderbyn cynnydd o 9% er ei asesiad o wariant is (fesul person). Roedd y Cynghorydd wedi annog Cyngor Partneriaeth Cymru, sy'n pennu'r fformiwla, i gwrdd ar frys i drafod p'un a yw'r fformiwla yma'n addas i'r diben ai peidio. Roedd e hefyd wedi annog pob Aelod i gysylltu â'r Gweinidog i ofyn iddo ddiwygio'r setliad Llywodraeth Leol cyn dweud bod angen i bob plaid wleidyddol gwrdd yn gyson a pharhau i weithio gyda'i gilydd.

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol y newidiadau i setiau data allweddol, megis nifer y Prydau Ysgol am Ddim, sydd wedi cael effaith negyddol ar ardal RhCT o'i chymharu â Chynghorau eraill.

Gofynnodd Aelod arall a fydd unrhyw gymorth ar gael ar gyfer yr ysgolion hynny sydd heb gronfeydd wrth gefn i'w helpu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol y bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi pob ysgol, waeth beth yw ei sefyllfa ariannol.

Croesawodd Arweinydd y Cyngor y sylwadau ynghylch trafodaethau trawsbleidiol. Ychwanegodd y bydd y cyfnod yma'n gyfnod heriol ar gyfer ysgolion a holl wasanaethau'r Cyngor, ond bydd y Cyngor yn parhau i'w cefnogi nhw yn sgil y cyllid ychwanegol. Pwysleisiodd fod Cyngor Partneriaeth Cymru wedi cwrdd mor ddiweddar â phythefnos yn ôl, ac eto fel is-grŵp ar faterion Cyllid. O ran y fformiwla, pwysleisiodd yr Arweinydd fod RhCT eisoes wedi bod yn y chwartel uchaf ac adleisiodd sylwadau'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol, sef bod y fformiwla wedi'i seilio ar ddata megis ffigurau

am y boblogaeth.

Yn absenoldeb Arweinydd y Grŵp Annibynnol, siaradodd y Cynghorydd W Jones o blaid cydweithio trawsbleidiol yn y dyfodol, cyfeiriodd at y cyfnod heriol sydd o'n blaenau ond bod hyn yn well gydag Arweinydd y Cyngor yn llywio'r broses.

Awgrymodd Aelod arall nad yw fformiwla Barnett yn addas i'r diben, gan ystyried y lefelau amddifadedd uchel yng Nghymru. Nododd nad yw'r setliad llywodraeth leol yn cefnogi'r Cyngor i gynnig lefel y gwasanaethau sydd eu hangen ar ei drigolion.

I gloi, roedd yr Arweinydd wedi ymateb i bob sylw, gan ganmol gwaith caled staff y Cyngor yn sgil Storm Dennis a'r Pandemig. Ychwanegodd y bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r Undebau Llafur i osgoi diswyddiadau gorfodol. Roedd yr Arweinydd wedi nodi'r gwaith caled sy'n cael ei wneud a'r cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal, gyda'r bwriad o ddiogelu swyddi a gwasanaethau'r Cyngor. Cadarnhaodd y bydd rhagor o ddiweddariadau ynghylch pennu cyllideb cael eu rhannu ag Aelodau yn y flwyddyn newydd, gan gefnogi teuluoedd a chymunedau RhCT.

Dyma yw cyfarfod olaf y Cyngor Llawn tan y flwyddyn newydd, felly dymunodd y Llywydd Nadolig Llawen i bob Aelod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.03 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**